Rhif 117 www.capelytraeth.com **Gorffennaf/ Awst/Medi 2021**

Annwyl Gyfeillion,

'Daw hyfryd ddydd Mehefin cyn bo hir' meddai'r gân. Ac fe ddaeth. Yn ystod y pythefnos diwethaf cawsom fwynhau cryn dipyn o haul i lonni bywydau. Mi fyddai hi'n braf iawn mwynhau dipyn o haul haf rwan am sbelan.

Cyfrwng ydi'r llythyr yma, a chyfrwng gwerthfawr iawn hefyd i'n cadw mewn cysylltiad â'n gilydd fel aelodau, a thrwy gyfrwng hwn anfonwn ein cofion at bawb fu mewn profedigaeth, salwch neu brofiadau anodd. Gweddiwn drosoch, a gobeithio y daw i chi haul ar fryn eto.

Byddwn yn parhau â'r drefn y cytunwyd arni mewn cyfarfod swyddogion sef cynnal gwasanaethau o dan ofal y gweinidog yn y capel ar suliau'r gweinidog (oni bai ei fod yn trefnu pregethwr yn ei le ar un o'r suliau hynny). Os bydd sefyllfa'r Cofid yn parhau i wella gobeithwn ail – gydio'n llawn yn y gwasanaethau yn y capel bob Sul ym Medi. Penderfynwyd hefyd, am eleni yn unig, i beidio â chynnal gwasanaethau yn y capel ym mis Awst. Beth bynnag ein barn am hyn, rhaid diolch i Dduw ein bod ers cymaint o fisoedd bellach wedi sicrhau gwasanaeth bob Sul unai ar Zoom neu yn y capel tra bod cymaint o gapeli eraill heb gynnal y nesaf peth i ddim ers dros flwyddyn bellach. Rydwi'n ddistaw bach yn teimlo mai lle i ddiolch sydd gennym….

Mae mis Awst yn fis gwyliau i'r gweinidog a bod yn onest, rydwi'n teimlo mwy o'i angen eleni nag erioed gan fod gweithio o dan gyfyngiadau Covid wedi bod yn fwy o straen nag a ddychmyga gan neb. A goeliwch chi hefyd, oherwydd bod eglwysi'r ofalaeth wedi uno â'i gilydd drwy gyfrwng Zoom bob wythnos, mod i wedi paratoi mwy o bregethau ers blwyddyn nag ydwi wedi ei wneud erioed! Os bu i Dduw orffwys wedi creu popeth, mae'n angenrheidiol i bawb ohonom wneud.

Gan mai hwn yw'r Cylchlythyr olaf tan fis Medi dymunaf wyliau dedwydd i bob un ohonoch. Diolch i chi am bopeth – ryda chi'n werth y byd i gyd. Diolch i Dduw yn ei Fab Iesu Grist o dan weinidogaeth yr Ysbryd Glân am gynhaliaeth sydd tu hwnt i bawb ohonom.

Cofion atoch i gyd, *Iwan*

Trefn y gwasanaethau

Gorffennaf:

04	Gweinidog (ar Zoom yn unig am 9.45)
11	I'w drefnu (ar Zoom yn unig am 10.00)
18	Gweinidog (yn y capel ac ar Zoom am 10.00)
25	Gweinidog (yn y capel ac ar Zoom am 10.00)
Awst	**Dim Gwasanaethau**
Medi	
05	Mr Richard Parry Jones (yn y capel ac ar Zoom am 10.00)
12	Mrs Ann Lewis (yn y capel ac ar Zoom am 10.00)
19	Gweinidog (yn y capel ac ar Zoom am 10.00)
26	Gweinidog (yn y capel ac ar Zoom am 10.00)

Cofion Braf yw cael cyfle unwaith eto i gofio'n gynnes iawn at bob un ohonoch. Mae'r tywydd yn fendigedig ar y funud a'r dref yn hynod brysur. Gyda thristwch y clywsom am nifer sydd wedi wynebu profedigaeth yn ddiweddar. Bu farw Tom Jones, priod Megan Jones, Gorseddfa. Roedd Tom yn gymeriad addfwyn ac yn aelod selog o'r Gymdeithas Ddiwylliadol. Tair arall yr ydym yn meddwl amdanynt yw Carys Hughes, Brynffynnon a gollodd ei brawd, Heddwyn, yn ardal yr Wyddgrug. Felly hefyd Megan Owen, Ty'n Rhos a gollodd ei brawd Gwilym Davies, ger Rhydychen ac Ann Price, Monfa a gollodd ei chwaer Gwenfair yn Nolgellau. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at bob un ohonoch yn eich colled a'ch hiraeth.

Rydym yn meddwl hefyd am y rhai sydd heb fod yn dda iawn eu hiechyd yn ddiweddar. Mae Mr Elwyn Davies yn yr ysbyty ar hyn o bryd ac rydym yn meddwl amdanoch Elwyn.

Diolch Eira a James Erbyn diwedd y mis fe fydd Eira a James wedi gadael Cricieth ac wedi ymgartrefu yng Nghaergaint. Symudodd y ddau i Gricieth dros chwarter canrif yn ôl ac ymaelodi yng Nghapel y Traeth ble roedd tad Eira, Mr Meurig Jones eisoes yn aelod ac yn flaenor. O'r funud cyntaf fe ymroddodd y ddau a chefnogi pob agwedd o waith yr Eglwys. Bu James yn organydd medrus a ffyddlon o'r cychwyn cyntaf ac Eira yn weithgar a chefnogol i waith y chwiorydd. Dymunwn bob bendith iddynt yn eu cartref a'u cymdeithas newydd.

Cydnabod gwasanaeth dau Flaenor Pleser oedd cael cyfle i longyfarch Gwyneth Jones a Geraint Parry am eu gwaith fel blaenoriaid am dri deg o flynyddoedd. Bu Gwyneth yn ysgrifennydd am nifer o flynyddoedd a Geraint yn ysgrifennydd y cyhoeddiadau. Cyflwynwyd rhodd bach iddynt gan y Gweinidog mewn gwasanaeth ym mis Mai.

Llythyr o werthfawrogiad a ddaeth i law yn ddiweddar

Annwyl Chwiorydd,
Mae mis wedi mynd heibio ers i ni gynnal Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd yn rhithiol am y tro cyntaf erioed. Braf ydi cael cyfle i edrych yn ôl a chael diolch i chi am y cyfarfod hyfryd iawn a gawsom. Does dim amheuaeth na fyddai wedi bod yn brafiach cael bod yng Nghapel y Traeth ar y diwrnod braf yma ym mis Mai ond dan yr amgylchiadau doedd gennym ddim dewis.
Ers y cyfarfod cyntaf gyda chi yng Nghricieth daeth yn amlwg bod gennych weledigaeth a bod angen newid y Sasiwn draddodiadol a chreu dathliad i ddiolch am waith cyn Genhadon ond hefyd am y gwaith Cenhadol pwysig sydd yn digwydd yn y ganrif yma yng Nghymru a thramor. Cafodd eich syniadau eu croesawu ac aed ymlaen gyda'r cynlluniau.

Doedd gan neb fawr o syniad beth oedd o'n blaenau a siom oedd gorfod gohirio yn 2020. Ond rhywsut wrth edrych ar yr hyn a gyflawnwyd ar y sgrin fach ar 6 Mai 2021, mae yn gwneud i mi feddwl bod gan Dduw gynllun a bod y weledigaeth wedi cael ei gwireddu yn y ffordd fwyaf effeithiol. Dim jest gwaith ffilmio ac ochor dechnegol Gwyn Rhydderch oedd y gyfrifol am hynny, ond y sgriptio crefftus, y cyfranwyr amrywiol, y golygfeydd gwych o'r ardal, y blodau hardd yn y Capel, y canu swynol, anerchiad grymus Mererid Hopwood. Heb anghofio'r cwch lliwgar. Wrth ddod a'r cyfan at ei gilydd cawsom brynhawn i'w gofio a derbyn bendith heb orfod symud o'n hystafell fyw.

Diolch o waelod calon i bob un ohonoch am weithio mor galed i sicrhau llwyddiant y diwrnod arbennig yma.

Yn gywir,

Eirian

(Trefnydd Gwaith Chwiorydd)

Cymorth Cristnogol.

Diolch!

Sut mae dechrau diolch am y fath haelioni!

Fu hi ddim yn bosib' eleni eto i gasglu o dŷ i dŷ ond fe daniwyd dychymyg ac fe brociwyd cydwybod ac fe lifodd yr arian i mewn. Fe werthfawrogwyd cael cyflenwad digonol o ddŵr at bob un o'n gofynion o'r gawod yn y bore i'r banad, cyflenwi'r peiriannau golchi llestri a'r dillad, y tŷ bach (beth wnaem ni heb hwn?!), dyfrio'r ardd a golchi'r car – digon , digon o ddŵr .

A dyna sut y bu inni fynnu cofio am y miloedd sydd yn gorfod cerdded milltiroedd i gael rhyw ystêniad o ddŵr a hwnnw yn aml iawn ymhell o fod yn lân. Braf iawn felly oedd cael trosglwyddo £2,378 i Llinos Roberts, trefnydd lleol Cymorth Cristnogol a dros £1,700 ohono wedi dod trwy haelioni aelodau Capel y Traeth .

Fu'r plant ddim yn segur 'chwaith gan i Elin ddyfeisio pob math o weithgareddau i helpu'r plant i weld a dod i ddeall mor wahanol ydy' bywyd plant yn Kenya a sawl gwlad arall. O ganlyniad fe gyfrannodd y Clwb Sul £180 i'r gronfa.

Diolch, diolch o galon ich'i i gyd. ***Eirwen Llwyd Jones***

Plant y Clwb Sul yn cael profi gwaith mor galed yw cario dŵr.

Buont hefyd yn gwneud arbrawf i ddangos cymaint o wahaniaeth mae cael cyflenwad dŵr yn ei wneud i fywydau pobl ac yn diolch eu bod hwy yn cael diod o ddŵr glân dim ond agor tap. Mae'r gwersi yma yn cyd fynd â thema Cymorth Cristnogol eleni.